Papur briffio ynglŷn â chydlyniant cymunedol

Yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol ac Ysgolion Bro

'Mae gan ysgolion rôl bwysig eisoes mewn helpu i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion trwy eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd diweddarach. Mae'r canllawiau ar hyrwyddo a chefnogi datblygiad personol a chydeithasol disgyblion (ACCAC, 2000) yn cydnabod: "... yr heriau a wynebir gan ysgolion mewn cymdeithas ddatblygedig ... wrth allugoi disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar, gwybodus a chyfrifol ... a'r heriau o fod yn ddinesydd yng Nghymru a'r byd."' (Trawsnewid ysgolion, Estyn, 2007, para 41)

Cynnwys

Pwrpas y papur briffio hwn	2
Rhagarweiniad	3
Y cyd-destun – poblogaeth Cymru	3
Beth yw cydlyniant cymunedol?	5
Y ffordd mae cydlyniant cymunedol yn cysylltu â datblygiadau eraill	6
Pam mae hyn yn bwysig i mi?	7
Sut gall Ysgolion Bro a Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol helpu i hybu cydlyniant cymunedol?	7
Casgliadau	8
Awgrymiadau	9
Astudiaethau achos	10

continYou
Adeiladu cymunedau dysgu
Building learning communities



Cydnabyddiaeth

Ysgrifennwyd y papur briffio hwn gan Ian Bottrill ar ran ContinYou Cymru. Cafodd ei olygu gan Carolyn Sugden a'i ddylunio gan Paul Mepham. Fe'i cyfieithwyd gan Eleri Jones, Penisa'r-waun.

Cyhoeddwyd gan ContinYou Cymru

Hawlfraint © ContinYou 2008

ContinYou Cymru, Llys Angor,
Llawr Cyntaf, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 2047 8929 Ffacs: 029 2047 8930
Ebost: info.cardiff@continyou.org.uk

Gwefan: www.continyou.org.uk/cymru

Elusen gofrestredig rhif: 1097596

Cwmni cyfyngedig trwy warant

Cofrestredig yn Lloegr a Chymru: 4652378

Pwrpas y papur briffio hwn

Mae'r papur briffio hwn wedi cael ei baratoi i roi trosolwg cyflym o gydlyniant cymunedol i'r rheini sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu Ysgolion Bro a Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol (DTAOY). Mae rhai astudiaethau achos ynddo sy'n dangos sut y gall gweithgarwch presennol wneud cyfraniad go iawn at y broses o greu cymunedau mwy cydlynol. Nod y papur yw esbonio cydlyniant cymunedol yn glir a dangos sut, trwy ddatblygu Ysgolion Bro a dulliau DTAOY o weithredu, y gall ysgolion a llawer o'u gwahanol bartneriaid fod yn rhan o'r gwaith o feithrin cydlyniant. Nid syniad newydd yw cydlyniant cymunedol, ond mae'r trafodaethau diweddar ynglŷn â chydlyniant cymunedol a'r gwaith o'i hybu'n cynnig cyfle i archwilio syniadau ac edrych ar bethau o safbwynt ychydig yn wahanol.

Y cwestiwn allweddol yw: 'Sut gallwn ni fel cymuned ysgol helpu i feithrin cydlyniant?'

Diffiniadau

Ysgolion Bro

'Mae ysgol sy'n ganolpwyntio ar y gymuned yn ysgol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg i oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.'

Ysgolion Bro, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr `Rhif: 34/2003

Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol (DTAOY)

'Mae dysgu allan-o-oriau-ysgol yn weithgaredd a gyflawnir yn wirfoddol gan ieuenctid ar wahân i waith gwersi arferol oriau ysgol. Mae felly'n derm cynhwysol i gofleidio gweithgareddau niferus ar wahanol ffurf ac enw sy'n digwydd mewn amrywiaeth o leoliadau. Pwrpas DTAOY yw gwella cymhelliant pobl ifanc, cryfhau eu hunan-barch, a'u cynorthwyo i ddod yn ddysgwyr ac yn ddinasyddion mwy effeithiol.'

Wedi'i addasu o *Study Support: a National Framework for Extending Learning Opportunities*, DfES, 2006

Rhagarweiniad

O fewn y DU, daeth trafodaethau ynglŷn â chydlyniant cymunedol i amlygrwydd ar ôl yr aflonyddwch yn Bradford, Oldham a Burnley yn 2001. Arweiniodd y Swyddfa Gartref yr ymateb cychwynnol a'i ganlyniad oedd cyhoeddi adroddiad Cantle. Er hynny, mae trafodaethau diweddar yn awgrymu nad mater i ddinasoedd gogledd Lloegr yn unig yw hwn. Mae adroddiad y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant, *Our Shared Future* (2007), dan gadeiryddiaeth prif weithredwr awdurdod lleol, wedi tynnu sylw at rai trywyddau newydd posib y gallai pob cymuned eu dilyn. (Tynnodd y Comisiwn hwn ei dystiolaeth o Loegr ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer Lloegr yn unig, ond mae'r dadansoddiadau a'r awgrymiadau'n berthnasol i'r DU gyfan, yn cynnwys Cymru.) Mae'r Comisiwn yn gweld cydlyniant fel y broses sy'n gorfod digwydd ym mhob cymuned er mwyn gofalu bod gwahanol grwpiau o bobl yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd. Nid dim ond ardaloedd lle mae poblogaethau mawr o bobl o leiafrifoedd ethnig sydd dan sylw yma. Fel yr oedd y papur briffio ar Wobrwyon Cydlyniant *Schools ETC* yn ei wneud yn glir yn gynharach yn 2007: 'Nid dim ond ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd sydd â llawer o grwpiau ethnig neu grefyddol cymysg y mae'r Wobr hon. Anogir ysgolion o bob ardal i ymgeisio os ydynt wedi gwneud gwaith dinasyddiaeth y tu allan i oriau ysgol ym maes cydlyniant cymunedol.'

(*Schools ETC* yw'r cylchgrawn chwarterol a gyhoeddir gan ContinYou i dynnu sylw at bob agwedd ar addysg gymunedol. Gwobrwyon blynyddol yw'r rhain, ac mae'r thema'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.)

Yn ei arolwg blynyddol, *Byw yng Nghymru 2006*, adroddodd Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru:

- 11% o atebwyr ddweud eu bod, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, wedi dioddef rhyw fath o ragfarn, aflonyddu neu erledigaeth;
- Yr ail reswm mwyaf cyffredin, ar ôl 'arall', yr oedd atebwyr yn ei roi dros y rhagfarn, yr aflonyddu neu'r erledigaeth yr oeddent wedi'u dioddef yn ystod y pum mlynedd diwethaf, oedd hil/cenedligrwydd.

Mae cyfle a her i'r rheini sy'n ymwneud ag Ysgolion Bro a DTAOY i allu adnabod amrywiaeth pobl Cymru. Mae'n debyg mai dinasoedd â phoblogaethau mawr o leiafrifoedd ethnig a fydd yr ardaloedd lle mae problemau cydlyniant yn fwyaf amlwg. Ond, fel y mae *Our Shared Future* yn dangos, pan fo nifer arwyddocaol (yn nhermau lleol) o ymfudwyr yn dod yn sydyn i ardal lle mae cefndir y mwyafrif o'r bobl yn ddigon tebyg, gall hyn achosi anawsterau difrifol (i'r trigolion presennol ac i'r rhai newydd fel ei gilydd), gan mai anaml iawn y mae seilwaith cymorth yn bodoli'n barod yn yr ardaloedd hyn. Hefyd, mewn rhai ardaloedd mwy 'homogenaidd' (lle mae cefndir canran uchel iawn o'r bobl yn debyg), gall camddealltwriaeth ac 'ofn pethau newydd' godi materion pwysig a fydd angen sylw. Trwy ddeall hefyd nad yw cydlyniant cymunedol yn ymwneud yn unig ag ethnigrwydd, diwylliant neu grefydd, ond ei fod hefyd yn ymwneud ag oedran, ffordd o fyw, anabledd ac amryw o ffactorau eraill sy'n gallu rhannu pobl, mae'n amlwg bod cydlyniant cymunedol yn fater i bob cymuned a phob ysgol yng Nghymru ei ystyried.

Gall effaith ysgolion ar lwyddiant (neu fethiant) cydlyniant cymunedol fod yn ddramatig. Yn y papur briffio byr hwn, byddwn ni'n edrych ar y math o gyfraniad y gall Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol (DTAOY) a datblygiadau ym maes Ysgolion Bro ei wneud i'r broses o greu a chefnogi cymunedau cydlynol ledled Cymru.

Y cyd-destun – poblogaeth Cymru

Dangosodd cyfrifiad 2001 fod poblogaeth o 2.96 miliwn yng Nghymru. Ar y pryd, roedd 75% o'r boblogaeth gyfan wedi cael eu geni yng Nghymru; 20% wedi'u geni yn Lloegr; 3% wedi'u geni yn un arall o wledydd y Gymuned Ewropeaidd; a 2% wedi'u geni y tu allan i wledydd y Gymuned Ewropeaidd. Mae tystiolaeth hanesiol yn awgrymu'n gryf y bydd y ganran o Ddwyrain Ewrop wedi codi'n sylweddol er 2001, ar ôl i ragor o wledydd ymuno â'r Gymuned Ewropeaidd.

Fel tair gwlad arall y Deyrnas Unedig, mae daearyddiaeth Cymru'n amrywiol iawn. Mae pobl Cymru'r un mor amrywiol, gyda phobl o gefndiroedd diwylliannol, ethnig a chrefyddol gwahanol iawn yn byw yma. Fel y mae'r ffigurau uchod yn dangos, roedd tua chwarter o bobl Cymru heb gael eu geni yma

ac, wrth gwrs, mae cysylltiadau teuluol gan lawer o'r bobl a anwyd yng Nghymru â rhai o wledydd eraill y DU, yn ogystal ag Ewrop a thu hwnt. Roedd amryw o wahanol resymau dros weld y bobl hyn neu eu rhieni neu eu neiniau a'u teidiau'n symud i Gymru – rhesymau economaidd oedd y rhain yn bennaf, ond nid yr unig resymau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amcangyfrif y bydd y mewnfudo hwn yn parhau, a bydd poblogaeth Cymru wedi cynyddu i 3.16 miliwn erbyn 2021, ac mai mewnfudo net o rywle arall yn y DU neu o wledydd eraill a fydd yn gyfrifol am tua 90% o'r cynnydd hwnnw.

Mae gwahaniaethau i'w gweld yn y ffordd mae poblogaethau rhanbarthau'n ffurfio, ac mae gwahaniaethau o fewn rhanbarthau a hyd yn oed o fewn trefi a phentrefi. Roedd cyfrifiad 2001 yn nodi ar gyfer pob sir grŵp ethnig pobl, eu crefydd (os oeddent wedi'i nodi) a'r wlad yr oeddent yn tarddu ohoni. Ar y lefel honno, mae'r amrediad yn ddigon clir. Er enghraifft, yn 2001, roedd y ganran uchaf o drigolion oedd heb fod yn wyn yn byw yng Nghaerdydd (8.4%), Casnewydd (4.8%) ac Abertawe a Bro Morgannwg (2.2% yr un). Roedd y ganran isaf yn Ynys Môn (0.7%), ac yn Sir y Fflint a Blaenau Gwent (0.8% yr un). Wrth ystyried gwlad enedigol y tu allan i'r DU, mae'r un patrwm i'w weld o ran y canrannau uchaf (Caerdydd 6.9%, Casnewydd 3.8% a Bro Morgannwg 3.3%), ond yn rhai o gymunedau'r Cymoedd y mae'r canrannau isaf i'w gweld (Blaenau Gwent 1.0%, Merthyr Tudful 1.2% a Chastell-nedd Port Talbot 1.5%).

Mae'r amrywiaeth yn nefnydd y Gymraeg fel iaith gyntaf neu'n un o ddwy iaith gyntaf yn cymhlethu'r darlun amrywiol. Mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg wrth i fudiadau diwylliannol ardderchog fel Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Bwrdd yr Iaith Gymraeg feithrin yr iaith, wrth i ysgolion Cymraeg dyfu a datblygu, ac wrth i'r iaith gael ei dysgu mewn ysgolion Saesneg. Mae'r Gymraeg ar ei chryfaf yng ngogledd a gorllewin y wlad (mae dros 50% o boblogaethau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn yn siarad yr iaith). Mae twf yr iaith ar ei gryfaf yn rhai o rannau'r de a'r dwyrain (cynyddodd canran Torfaen o 2.5% yn 1991 i 11.1% yn 2001; yn yr un ffordd cynyddodd y ganran ym Mlaenau Gwent o 2.2% i 9.5%, yn Sir Fynwy o 2.1% i 9.3% ac yng Nghasnewydd o 2.3% i 10.0%).

Y drefn arferol yw bod grwpiau newydd o ymfudwyr o'r tu allan i'r DU (isgyfandir India, Affrica, y Caribî ac, yn fwy diweddar, Dwyrain Ewrop) yn tueddu i ymgartrefu mewn trefi a dinasoedd mawr. Er hynny, nid yr un yw'r patrwm ar gyfer y bobl sy'n symud i Gymru o wledydd eraill y DU. Mae'r rhain yn aml yn dewis byw mewn ardaloedd ar gyrion trefi, neu mewn ardaloedd gwledig neu led wledig.

Mae angen i ysgolion a mudiadau cymunedol fod yn ymwybodol o oblygiadau'r patrymau hyn o fewnfudo wrth iddynt ddatblygu eu darpariaethau DTAOY ac Ysgolion Bro. Dyma sydd wrth wraidd cydlyniant cymunedol – adnabod a chlodfori amrywiaethau diwylliannol, heb fygwth mewn unrhyw ffordd wreiddiau diwylliannol a threftadaeth y boblogaeth frodorol.

Fel y mae un o'r astudiaethau achos ar y wefan yn dangos (gweler www.continyou.org.uk/astudiaethauachoscydlyniant), un arall o'r heriau i gydlyniant cymunedol yw cartrefi dros dro a'r cyfnodau byr y mae rhai teuluoedd yn aros mewn ardaloedd cyn cael eu symud ymlaen gan yr awdurdodau.

Felly, beth yw effaith hyn? A yw'r fath deuluoedd yn cael cyfle i ddod yn rhan o gymuned? A yw'r gymuned yn cael cyfle i ddod i'w hadnabod hwy? Beth yw effaith hyn ar y plant sy'n mynd i'r ysgolion – eu hymwneud, eu grwpiau o ffrindiau a'u cyraeddiadau? Mae sefyllfaoedd o'r fath yn herio'r plant a'u teuluoedd yn ddrwg, ac yn herio'r ysgolion a'r gymuned.

Dywedodd 20.8% o boblogaeth Cymru yn 2001 eu bod yn gallu siarad Cymraeg. 18.7% oedd y ganran gyfatebol yn 1991. Roedd y ganran uchaf o siaradwyr yr iaith i'w gweld ymhlith plant – er enghraifft, roedd 40.8% o blant 5–15 mlwydd oed yn gallu siarad yr iaith. Roedd 24.7% o'r bobl (tair oed a hŷn) a anwyd yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg yn 2001, gyda 9.0% o'r bobl a anwyd y tu allan i Gymru'n gallu siarad Cymraeg.

Beth yw cydlyniant cymunedol?

Mae Our Shared Future, adroddiad y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007), yn gweld mae cymunedau integreiddiedig a chydlynol fel rhai ble:

- mae synnwyr clir ac eithaf cyffredin o gyfraniad gwahanol unigolion a gwahanol gymunedau i'r weledigaeth ar gyfer cymdogaeth, dinas, rhanbarth neu wlad yn y dyfodol;
- mae synnwyr pendant o hawliau a chyfrifoldebau unigolyn pan fo'n byw mewn lle neilltuol – mae pobl yn gwybod am yr hyn y mae pawb yn ei ddisgwyl ganddynt, a'r hyn y gallant hwy yn eu tro ei ddisgwyl;
- mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cael cyfleoedd bywyd tebyg, ac yn gallu cael gafael yr un mor rhwydd ar wasanaethau a thriniaethau;
- mae synnwyr pendant mewn ardal o ymddiriedaeth mewn sefydliadau i weithredu'n deg wrth ddyfarnu rhwng gwahanol fuddiannau, a bod y cyhoedd yn cael cyfle i archwilio rôl y sefydliadau a'u rhesymau dros weithredu;
- mae cyfraniadau pobl newydd mewn ardal a chyfraniadau'r rheini sydd eisoes wedi creu cysylltiadau dwfn â lle yn cael eu cydnabod yn gadarn, a'r pwyslais yw'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt;
- mae perthynas gadarn a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yn y gweithle, mewn ysgolion ac o fewn sefydliadau eraill yn y gymdogaeth.

Mae astudiaethau'n dangos bod cydlyniant mewn perygl mewn ardaloedd lle mae diffyg arweiniad cymunedol. Mae cyfle arbennig yma i Ysgolion Bro a Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol chwarae rôl hanfodol – trwy archwilio cyfleoedd, agor y drysau i brofiadau newydd a rhannu adnoddau, er enghraifft.

Mae adroddiad y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant a gwaith diweddar gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) wedi dangos mai tameidiog iawn yw'r dystiolaeth i'r hyn sy'n gyrru integreiddio a chydlyniant. Mae'n glir, fodd bynnag, fod y ffactorau sy'n effeithio ar gydlyniant yn gymhleth iawn, a'u bod yn amrywio o ardal i ardal. Nid un ffactor ar ei ben ei hun sy'n pennu cydlyniant – yn hytrach, bydd cymunedau lle mae cydlyniant yn wan wedi wynebu cyfres o ffactorau heriol ar yr un pryd (er enghraifft, cyfuniad efallai o dlodi, diffyg swyddi, mewnlifiad o weithwyr newydd, cyfraddau troseddu uchel a llawer o newidiadau mewn amser byr). Ond, ar y llaw arall, mae llawer o ardaloedd o amddifadedd dwys yn y DU wedi llwyddo i feithrin cydlyniant da oherwydd bod gweithredu lleol, yn aml gan ysgolion a'u partneriaid, wedi helpu i atgyfnerthu'r gallu i wrthsefyll effeithiau amddifadedd.

Un o'r ffactorau pwysig yn y ffordd y mae 'cymunedau sefydlog' yn cael eu gweld yw bod eu pobl yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dyrannu'n deg a chyfiawn. Ymddengys hefyd fod cydberthynas bwysig rhwng y ffaith fod cyfleusterau cymunedol fel canolfannau cymunedol ar gael, a chydlyniant. Eto, mae cyfraniad pwysig iawn gan ysgolion a'u partneriaid i'w wneud yn y broses o ddarparu'r cyfleusterau hyn.

Hybu rhyngweithio – pedwar maes allweddol

Tynnodd y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant sylw at bedwar maes pwysig lle gall gweithredu posibl ddigwydd:

- ysgolion;
- y gweithle;
- cyfleusterau chwaraeon, diwylliant a hamdden;
- mannau cyhoeddus sy'n cael eu rhannu, ac ardaloedd preswyl.

Mae'n pwysleisio bod angen hybu rhyngweithio ystyrlon ym mhob un o'r meysydd hyn. Credwn y bydd llawer o ysgolion yn barod iawn i gydnabod rôl bosibl Ysgolion Bro a DTAOY yn y broses o sicrhau'r rhyngweithio a'r integreiddio hynny.

O ran cydlyniant cymunedol, mae ysgolion a'u partneriaid yn wynebu gwir her yn nhermau:

- **sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth** – mae'n hanfodol i asiantaethau, mudiadau a chymunedau lleol ddatblygu dulliau lleol o roi cydlyniant cymunedol ar waith, er mwyn teimlo eu bod yn berchen arnynt;
- **deall dynameg y broses** – mae gan ysgolion (yn gweithio gyda'u partneriaid) rôl bwysig yn y broses o greu cymunedau cydlynol ar lefel cymdogaethau. Bydd angen i ysgolion weithio trwy'r rhwydweithiau llywodraethu perthnasol, megis cynghorau cymuned a byrddau rheoli ysgolion, i hybu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael ag unrhyw densiynau neu wrthdaro posibl;

- **dangos parodrwydd i arwain** – mae arweinyddiaeth gadarn yn golygu gwrthwynebu unigolion a grwpiau sy'n ceisio creu neu fanteisio ar densiynau rhwng cymunedau. Bydd arweinwyr da yn defnyddio'u dychymyg i ddod o hyd i ffyrdd o ymwneud â chymunedau a chreu synnwyr o berthyn i ardal. Nid yw arweinyddiaeth gadarn yn golygu gorfodi pobl eraill i dderbyn syniadau – mae'n golygu bod â gweledigaeth glir o'r hyn y mae'r grŵp neu'r gymuned yn awyddus i'w gyflawni, a dealltwriaeth o sut mae ei gyflawni heb greu anawsterau yn nes ymlaen.

Yr hyn sy'n glir yw bod angen i ysgolion ddatblygu cysylltiadau cadarn â'u cymunedau, ymwneud â rhieni a gofalwyr o wahanol gefndiroedd, a chynnwys pobl leol ym mywyd yr ysgol.

Y ffordd mae cydlyniant cymunedol yn cysylltu â datblygiadau eraill

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i wneud yn sylfaen i'w waith ar ran plant a phobl ifanc. Dyma ysbryd saith amcan craidd *Gweithredu'r Hawliau* – sef gofalu bod pob plentyn:

1 cael cychwyn rhagorol i'w bywydau;

2 cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu;

3 mwynhau'r iechyd gorau posibl, heb orfod dioddef cael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio;

4 cael cyfle i chwarae, hamddena a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol;

5 cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bode u hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn eu cynabod;

6 byw mewn cartref diogel a chymunedau sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol; osgoi dioddef anfantais oherwydd tlodi.

O fis Medi 2008, mae disgwyl i'r holl awdurdodau lleol gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn disgrifio sut y bydd y gwasanaethau a'r gweithgareddau y maent yn eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc yn helpu i gyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer pob un o'r amcanion craidd. Mae angen i bob ysgol fod yn ymwybodol o gynllun ei hawdurdod lleol, oherwydd dylai'r gwaith y mae'r ysgolion yn ei wneud i feithrin cydlyniant cymunedol ategu'r nodau craidd hyn.

Mae saith amcan craidd *Gweithredu'r Hawliau'n* berthnasol iawn i'r gwaith o feithrin cydlyniant. Bydd helpu i greu'r amodau lle mae cymunedau cydlynol yn ffynnu'n cyfrannu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol at bob un o'r amcanion craidd hyn, ond yn fwyaf amlwg efallai at nodau craidd 3, 4, 5 a 6. Yn yr un modd, gall symud ymlaen i gyflawni'r nodau craidd gyfrannu'n sylweddol at y broses o greu cymuned gydlynol.

Yn ei ddogfen *Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc*, mae Plant yng Nghymru'n argymell un ar bymtheg o feysydd sy'n galw am weithredu ar unwaith. Mae dau o'r rhain yn berthnasol yma:

- hyrwyddo plant a phobl ifanc fel dinasyddion yn eu cymuned;
- gwella bywyd plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches.

Mae *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru*, polisi blaenllaw'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid (ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed) yng Nghymru, yn rhestru deg o 'hawliau pobl ifanc' (pethau y mae'r Cynulliad yn credu bod pob person ifanc yng Nghymru'n eu haeddu er mwyn gallu manteisio ar eu cyfleoedd a'r dewisiadau y bydd rhaid iddynt eu gwneud). Yn eu plith y mae:

- **teimlo'n dda**: mae hawl gan bobl ifanc i deimlo'n hyderus a balch;
- **bod yn unigolyn**: mae hawl gan bobl ifanc i gael eu trin â pharch; i weld pawb yn eu trin yn gyfartal; i gael cydnabod eu cyfraniadau; i gael cydnabod eu cyflawniadau ac i weld eu cyflawniadau'n cael eu clodfori;
- **diogelwch a sicrwydd**: mae hawl gan bobl ifanc i fyw mewn cartref a chymuned ddiogel a sicr. Er mwyn gwneud y gorau o'u cyfleoedd mewn bywyd, mae angen i bobl ifanc deimlo'n ddiogel, yn sicr a pheidio â chael eu bygwth a'u bwlio. Dylai'r bobl sydd yno i'w helpu, yn cynnwys eu cymuned leol, eu hysgol a'r heddlu, eu helpu i deimlo'n ddiogel.

Mae'r tair hawl hon yn arbennig o berthnasol i agenda cydlyniant cymunedol – mater o fod yn hyderus, yn unigolyn ac o deimlo'n ddiogel fel unigolyn hyderus. Mae bron yn ddiffiniad o natur DTAOY ac mae'n rhan o natur Ysgolion Bro.

Pam mae hyn yn bwysig i mi?

Felly, beth yw goblygiadau hyn i ysgolion, i'w partneriaid ac i awdurdodau lleol? Mae adrannau blaenorol y papur briffio hwn wedi tynnu sylw at y canlynol:

- bod sawl agwedd ar gydlyniant, ac nid yw'n ymwneud yn unig ag ethnigrwydd a'i feysydd perthynol;
- bod poblogaeth Cymru'n hynod o amrywiol a'i bod yn un newidiol hefyd;
- bod rôl gan ysgolion a'u partneriaid i'w chwarae yn y broses o fynd i'r afael â materion sy'n perthyn i agenda cydlyniant;
- gall DTAOY ac Ysgolion Bro gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r targedau a'r nodau dan sylw yn amryw o adroddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, Estyn ac eraill.

Yn sylfaenol, dyma pam mae hyn yn bwysig. Er nad yw materion cydlyniant yn cael llawer iawn o sylw yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru ar hyn o bryd, mae natur ddeinamig y newidiadau yn y boblogaeth yn awgrymu y gallai'r fath faterion godi yn y dyfodol – mewn ffyrdd a llefydd annisgwyl, efallai – heb fynd ati i wneud rhywbeth cadarnhaol. O dderbyn bod rhwystro problem yn well na cheisio'i datrys, mae'n synhwyrol iawn i ysgolion a'u partneriaid (yn cynnwys, yn bwysig, eu cydweithwyr yn yr awdurdod lleol) fynd i'r afael â'r materion hyn yn awr.

Yn yr adran nesaf, byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gyflawni hyn.

Sut gall Ysgolion Bro a Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol helpu i hybu cydlyniant cymunedol?

Mae *Our Shared Future* yn ei gwneud hi'n glir bod mwy o amrywiaeth yn creu effeithiau penodol mewn gwahanol ardaloedd. Oherwydd hyn, mae angen ffyrdd lleol o ddatrys y problemau er mwyn iddynt fod yn berthnasol i holl drigolion cymuned neilltuol, waeth beth yw eu cefndir. Dyma lle y gall ysgolion a'u partneriaid ddylanwadu go iawn – trwy fynd i'r afael yn lleol â phroblem genedlaethol a byd-eang (a dilyn datganiad Rene Dubos 'meddyliwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol'). Oherwydd hyn ac yn unol â'r canllawiau clir ym mhecyn cymorth ContinYou i *Ysgolion Bro* (a gyhoeddwyd yn 2006 – gweler tudalen 8), nid yw'r hyn sy'n gweithio mewn un ardal dan un set o amgylchiadau o angenrheidrwydd yn mynd i weithio gystal, os bydd yn gweithio o gwbl, mewn ardal arall lle mae'r cyd-destun yn gwbl wahanol. Nid oes, felly, unrhyw 'reolau' – dim ond awgrymiadau a syniadau defnyddiol.

Mae Ysgolion Bro a DTAOY yn cynnig cyfleoedd na fyddai ar gael, efallai, yn sesiynau prif ffrwd yr amserlen neu yn ystod diwrnod yr ysgol – mae llawer mwy o ryddid i wneud yr hyn sy'n addas i chi. Dylai'r ffordd y mae ysgol yn mynd ati, wrth gwrs, weddu i natur ei phoblogaeth a natur y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Gallai hyn olygu gwaith yn ystod diwrnod yr ysgol (o fewn y cwricwlwm) gydag ysgolion eraill, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol, a/neu waith gyda phartneriaid, pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Un o'r gofynion cyntaf, wrth gwrs, yw adnabod y gymuned. Mae'n gallu bod yn amrywiol iawn, fel y mae adran 'Y cyd-destun' y papur hwn yn esbonio, ond mae'n amrywio o ysgol i ysgol mewn ffyrdd eraill hefyd – o ddalgylch bach, clòs ysgol gynradd ar gyrion tref i ddalgylchoedd anferth gwasgaredig rhai o'r ysgolion uwchradd, Cymraeg neu arbennig yng nghefn gwlad. Mae dau ddalgylch gan nifer o'r ysgolion hyn – yr un lle mae'r plant yn byw (sy'n tueddu i fod yn fawr iawn) a'r gymuned leol ger yr ysgol (sy'n llawer llai). Mae'r ddau ddalgylch yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Mae sawl ffordd o ddod i adnabod cymuned. Nid y llyfryn byr hwn yw'r lle i ymchwilio i'r math hwn o weithgarwch. Ond gall ContinYou ac asiantaethau eraill (er enghraifft, grwpiau cymunedol lleol ac adrannau datblygu cymunedol awdurdodau lleol) gynnig help os oes angen, yn arbennig o ran gweithgarwch fel gwneud archwiliadau o gymunedau.

Ar ôl cael darlun clir o natur eich cymuned (neu gymunedau), daw'r problemau posibl a allai greu anawsterau i gydlyniant yn amlwg. Fel y nodwyd eisoes ar ddechrau'r papur hwn, y cwestiwn allweddol yw: 'Sut gallwn ni fel cymuned ysgol helpu i feithrin cydlyniant?' Dim ond chi sy'n gallu ateb y cwestiwn hwn, ar sail eich cyd-destun eich hun. Dylai'r 'Awgrymiadau' (tudalen 9) a'r ddwy astudiaeth achos (tudalennau 10–11) gynnig rhai syniadau y gallwch chi roi cynnig arnynt. Mae'r ddwy astudiaeth achos hon, ynghyd â phum astudiaeth arall (rhai o Gymru ac eraill o Loegr) ar wefan ContinYou (www.continyou.org.uk/cohesioncasestudies), yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae'n bosib ei gyflawni, yn aml iawn dan amgylchiadau heriol iawn.

Ond mae'n bwysig cofio nad yw'r hyn y mae'r ysgolion hyn yn ei wneud yn berthnasol a/neu yn ateb ymarferol, efallai, yn eich ysgol, eich cymuned neu dan eich amgylchiadau chi. Yr ateb bob tro o ran Ysgolion Bro a Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol yw i chi wneud yr hyn sy'n addas i'ch cyd-destun chi. Man cychwyn pob taith yw un cam bach!

Casgliadau

Nid adolygiad llawn o gydlyniant cymunedol yw'r papur hwn o gwbl. Ond, er hynny, mae'n cynnig darlun gweddol glir o'i gwmpas a'i bosibiliadau.

Dyma ambell i gwestiwn i chi ei ofyn i'ch hunan.

A yw'ch ysgol/mudiad:

- yn gwneud rhywbeth cadarnhaol i hybu cysylltiadau cymunedol da?
- yn hwyluso ac yn annog y gwaith o ddatblygu perthynas gref a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd crefyddol, diwylliannol a hiliol, a phobl o wahanol oedrannau?
- yn gofalu bod yr adnoddau a'r gweithgareddau a gynigir i blant, pobl ifanc (disgyblion), teuluoedd a'r gymuned yn gwbl gynhwysol?
- yn gwybod pa fudiadau sydd yn eich ardal neu ba gefnogaeth y gallai'r awdurdod lleol ei chynnig i'ch helpu i wneud hyn?

Gall ysgolion a'u partneriaid wneud llawer i hybu lles y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu – trwy roi sylw i'r agweddau ar gydlyniant, gallant wneud llawer, llawer mwy.

Cyfeirnodau

Y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant *Our Shared Future – Report of the Commission on Integration and Cohesion*, Communities and Local Government (adran o'r llywodraeth yn Lloegr), 2007

Migniuolo, Frances a Kitchin, Hilary *Briefing on Our Shared Future*, CSN/LGIU 23/7/2007

Hetherington, Monica et al *Community Cohesion: Rapid Evidence*, NFER, 2007

ContinYou Cymru: *Ysgolion Bro: Gwneud i Bethau Ddigwydd – Pecyn Cymorth*, 2006 – ar gael trwy www.continyou.org.uk/walesresources

ContinYou Cymru: *Côd Ymarfer ar Gyfer Dysgu Allan-o-Oriau Ysgol*, 2006 – ar gael trwy www.continyou.org.uk/walesresources

Mae iCoCo (y Sefydliad dros Gydlyniant Cymunedol) wedi'i leoli ym Mhrifysgol Coventry dan arweiniad Ted Cantle (Oona King yw'r Cadeirydd).

Institute of Community Cohesion, Futures Institute, 10 Innovation Village, Coventry University Technology Park, Cheetah Way, Coventry CV1 2TL
Ffôn: 024 7679 5757
Ebost: cohesion@coventry.ac.uk

Cyhoeddwyd Ysgolion Bro: Gwneud i Bethau Ddigwydd – Pecyn Cymorth ym mis Tachwedd 2006 gan ContinYou Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Dylai pob ysgol yng Nghymru fod wedi cael copi trwy ei hawdurdod addysg lleol. Mae'r pecyn cymorth yn helpu ysgolion ac eraill i ddatblygu a gweithredu fel Ysgolion Bro.

Awgrymiadau

- Defnyddiwch adnoddau cymunedol (grwpiau gwirfoddol, grwpiau ffydd ac ati) mewn gweithgareddau DTAOY (er enghraifft, trwy gynlluniau mentora) er mwyn helpu disgyblion i ddeall disgyblion eraill, trwy hybu trafodaethau ynglŷn â gwerthoedd cyffredin ac amrywiaeth, a herio rhagfarn a stereoteipio. Gallai gwaith maes, ymweliadau a chyfarfodydd gydag aelodau o wahanol gymunedau ategu a chyfoethogi'r gwaith hwn.
- Croesawch ddewis eang o grwpiau i ddefnyddio adnoddau'r ysgol ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain (gan roi mesurau diogelu addas yn eu lle, yn ôl y disgrifiad ym mhecyn cymorth *Ysgolion Bro* ContinYou Cymru a'i *Gôd Ymarfer* ar gyfer Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol).
- Diddymwch, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu, y pethau sy'n rhwystro mynediad ac yn rhwystro pobl ag anableddau rhag cymryd rhan (pa un a ydyn nhw'n anableddau corfforol neu'n anableddau dysgu).
- Rhowch gyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ryngweithio â phobl eraill o wahanol gefndiroedd – mae astudiaeth achos Pentrehafod yn cynnig enghreifftiau da ac ymarferol o hyn. Yn ddigon diddorol, mae Darra Singh (Cadeirydd y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant) wedi dweud: 'Fe welsom rai enghreifftiau da o efeillio mewn ysgolion, ond mae'n eithaf tameidiog ar hyn o bryd, felly fe ofynnon ni am fwy o ymdrech i geisio'i symud yn ei flaen yn nhermau rhaglen genedlaethol o efeillio mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion sydd heb broffil amrywiol yn nhermau cefndiroedd pobl.' (cyfieithwyd o'r *Local Government Chronicle*, Awst 2007).
- Datblygwch neu rhowch fywyd newydd i'r system 'gohebu â ffrindiau'. Efallai fod angen ei diweddaru ar gyfer yr oes fodern trwy ei gwneud yn system 'ebostio ffrindiau' – gallai fod yn gam defnyddiol iawn yn y broses o greu dealltwriaeth ddiwylliannol (gan gofio rhoi mesurau diogelwch yn eu lle, wrth gwrs).
- Cynigiwch gymorth trwy DTAOY (neu drwy ysgolion atodol) i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, er mwyn eu galluogi i gyflawni ar y lefel uchaf posibl mewn Saesneg (mae ysgolion atodol, sydd wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan grwpiau cymunedol lleol, yn cynnig cyfleoedd addysgol y tu allan i oriau ysgol i blant a phobl ifanc sydd yn aml yn dod o gymunedau o leiafrifoedd ethnig).
- Cynyddwch nifer y gweithgareddau ymwneud â rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned trwy drefnu boreau coffi, gweithgareddau coginio neu gelfyddydol, cyrsiau ar gyfer rhieni a phlant, neu weithgareddau eraill.
- Darparwch wasanaethau estynedig yn cynnwys, efallai, dysgu ar gyfer oedolion a theuluoedd, dosbarthiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, neu ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill.
- Trefnwch neu gymerwch ran mewn digwyddiadau rhyngddiwylliannol rheolaidd sydd â'r nod o hybu cysylltiadau cymunedol da.
- Cynyddwch y gweithgareddau sydd wedi'u targedu'n benodol at ddisgyblion ag anghenion neilltuol (fel ffoaduriaid, teithwyr, plant sy'n derbyn gofal neu grwpiau sy'n tangyflawni) – gweler yr astudiaeth achos o Bentrehafod.
- Cynigiwch neu gymerwch ran mewn digwyddiadau chwaraeon cymunedol.
- Crëwch gysylltiadau ag ysgolion sydd â chyfuniadau hiliol/crefyddol gwahanol er mwyn trefnu gweithgareddau/digwyddiadau.
- Cynigiwch ofal bugeiliol/teuluol/cyfeillio neu fentora ychwanegol i blant/teuluoedd ffoaduriaid neu geiswyr lloches.
- Cynigiwch weithgareddau dinasyddiaeth fel rhan o ddarpariaeth DTAOY yr ysgol.
- Ffurfiwch bartneriaethau rhwng ysgolion ffydd ac ysgolion seciwlar.
- Ewch ati i wneud gwaith allgymorth gyda theuluoedd mewn gwahanol gymunedau.
- Crëwch gysylltiadau ag ysgolion atodol yn y cymunedau lle maen nhw'n bodoli.
- Trefnwch ddosbarthiadau cadw'n heini ar gyfer gwragedd yn unig i hybu ffordd iach o fyw ar gyfer menywod sy'n methu dod i ddosbarthiadau cyhoeddus am resymau crefyddol. Er enghraifft, un o fentrau mwyaf llwyddiannus Ysgol Gynradd Camp yn St Albans yw'r dosbarthiadau cadw'n heini, sydd wedi bod yn rhedeg am ddwy flynedd, ac sy'n hybu cysylltiadau cymunedol cadarn ar draws cymunedau. Mae menywod Mwslim a rhai sydd heb fod yn Fwslim yn cefnogi'r dosbarthiadau hyn yn frwd.
- Darparwch 'gyfeillion darllen' a 'chyfeillion rhifedd'. Yn ogystal â chynnig cyfeillgarwch a chymorth unigol i blant, mae 'cyfeillion' o'r fath wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyraeddiadau plant. Yn Ysgol Gynradd Hannah More, er enghraifft, mae busnesau lleol yn ymweld â'r ysgol unwaith yr wythnos i gynorthwyo'r plant ym meysydd llythrennedd a mathemateg.
- Sefydlwch brosiectau 'rhwng cenedlaethau' i annog rhieni a'r gymuned i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol – er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd yn rhedeg 'Llywio'r Llygoden', cyfres o weithdai ar gyfrifiaduron sy'n annog oedolion i wella'u sgiliau TG sylfaenol dan arweiniad a gyda chymorth y disgyblion.
- Sefydlwch grŵp partneriaeth i hybu gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth, i osgoi dyblygu ac i roi sylw i anghenion cymunedau – mae cynrychiolwyr grwpiau cymunedol ac asiantaethau lleol, Cymunedau'n Gyntaf, llywodraethwyr ac athrawon yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach i gyd yn perthyn i grŵp partneriaeth Ysgol Gynradd Betws ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Defnyddiwch ddysgu 'rhwng cenedlaethau' i ddod ag aelodau iau a hyn cymuned at ei gilydd (gweler astudiaeth achos Rhondda Cynon Tâf).

Astudiaethau achos

Ysgol Pentrehafod, Abertawe

Canlyniad yw'r astudiaeth achos hon i drafodaeth gyda Jill Ahern, Swyddog Datblygu Addysg Gymunedol yn Ysgol Pentrehafod.

Ysgol i blant 11–16 oed yw Ysgol Pentrehafod yn Abertawe ac mae tua 1,000 o ddisgyblion ar ei chofrestr. Ers iddi gael ei hagor yn 1976, mae'r ysgol wedi gweithio'n ddiflino i hybu cynhwysiant ac i helpu pobl yn ei chymuned i werthfawrogi a deall amrywiaeth diwylliannol. Yr ethos hwn sydd wrth wraidd diwylliant yr ysgol hon sy'n gartref i un o unedau Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe. Mae 25 o wahanol ieithoedd ymhlith mamieithoedd plant yr ysgol.

Fel llawer o ysgolion ledled Cymru, mae'r gweithgareddau cwricwlaidd yn clodfori amryw o gredoau ac amrywiaeth ddiwylliannol, ond mae Ysgol Pentrehafod yn rhoi pwyslais mawr ar ei rôl fel Ysgol Fro a'r cyfraniad y gall Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol ei wneud i greu cymunedau cydlynol.

Bu Jill Ahern yn flaenllaw yn y gwaith hwn ym Mhentrehafod. Agorodd y siop masnach deg yn 2006 fel menter gymdeithasol. Caiff ei rhedeg gan rai o bobl ifanc yr ysgol. Mae DVD y mae'r ysgol wedi'i greu i esbonio pwysigrwydd masnachu teg ar gael i bob un o ddisgyblion yr ysgol. Ni wnaeth cost ychwanegol cynnyrch masnach deg rwystro'r siop rhag gwerthu ei holl gynnyrch mewn twrnamaint pêl-droed yn yr ysgol yn ddiweddar. Mae hyn yn nodweddiadol o ddulliau gweithredu Pentrehafod. Nid chwiw yw cydlyniant cymunedol – mae'n rhan o enaid yr ysgol. Nid yw'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n perthyn i ethnigrwydd a ffydd yn unig. Gwahoddir yr ysgol yn rheolaidd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y ddinas i bontio'r cenedlaethau, a'r diweddaraf o'r rheini oedd bod yn rhan o Strategaeth Adfywio Cymnedol. Dywedodd Jill: 'Yn aml iawn, mae pobl dan 25 oed a rhai dros 50 oed yn dod o hyd i beth wmbredd o dir cyffredin.'

Mae cysylltiadau cadarn gan yr ysgol ag India (gyda chymorth y Cyngor Prydeinig), Tsieina (a allai olygu y bydd rhai o bobl ifanc Pentrehafod yn ymweld â Nantong) ac Affrica. Mae bachgen amddifad ifanc o Wlad Swazi yn ddisgybl ym Mhentrehafod ar hyn o bryd tra ei fod yn cael triniaeth feddygol trwy gymorth cyfraniadau gwirfoddol gan yr ysgol a'r gymuned. Aethpwyd ati i gynnal amrywiaeth o weithgareddau fel ffordd o baratoi disgyblion yr ysgol yn ofalus cyn i'r bachgen gyrraedd (mae ei gyflwr yn ei wneud yn eithaf amlwg). Mae'r bachgen wedi mynd yn rhan o gymuned yr ysgol yn gyflym iawn, gan ddysgu sgiliau pwysig ym myd ailgylchu iddo'u cymryd yn ôl i'w gartref a'i gymuned yn Affrica. Sbardunwyd y cyswllt hwn ag Affrica wrth i Jill greu cynllun gohebu a chynllun casglu dillad.

Fel llawer o ysgolion eraill, mae nifer o blant ym Mhentrehafod yn 'gofalu' am aelodau eraill o'u teuluoedd. Mae Clwb Gofalwyr Ifanc yno, dan arweiniad gweithiwr prosiect, a'r gobaith yw cynnal digwyddiad ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn helpu Diwrnod Hawliau Gofalwyr. Yn y gwaith hwn, ac yn wir ym mhob agwedd arall ar waith yr ysgol fel Ysgol Fro a'i darpariaeth Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol, gofelir nad yw'r plant yn cael eu labelu mewn unrhyw ffordd. Mae pob digwyddiad yn 'agored' er bod rhai unigolion neilltuol yn cael eu targedu'n fwy, yn ôl yr amgylchiadau a natur y digwyddiad.

Mae Ysgol Pentrehafod yn awyddus i gael ei gweld fel rhan hanfodol o'i chymuned, nid dim ond fel ysgol sy'n digwydd bod yno. Mae Jill yn aelod o grŵp strategaeth Ysgolion Bro'r ddinas gyfan, ac mae cysylltiadau cadarn gan yr ysgol â Chymunedau'n Gyntaf, amryw o grwpiau anabledd, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd a Gweithgarwch Ieuenctid Hafod. Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Ieuenctid ac Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe i gyd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol. Mae Ymestyn yn Uwch – Ymestyn yn Ehangach (Prifysgol Abertawe) wedi bod yn gweithio'n ddiweddar gyda rai o ddisgyblion Blynyddoedd 9–11. Mae eglwys gymunedol yn cynnig cwricwlwm amgen i rai o ddisgyblion Blwyddyn 11 a allai fod ar fin gwrthod yr ysgol. Roedd Ysgol Pentrehafod rhan o'r prosiect peilot ContinYou ar gyfer llais plant.

Mae'r celfyddydau'n rhan bwysig o fywyd yr ysgol a'i gwaith cydlyniant. Mae unigolyn du sy'n perthyn i leiafrif ethnig yn rhedeg cynllun chwarae yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at y gwaith cynnwys a'r gwaith canolbwyntio. Aeth Celfyddydau Rhyngddiwylliannol De Cymru ati i drefnu gweithgareddau hanner tymor yn yr ysgol fel ffordd o goffáu deucanmlwyddiant Diddymu Deddf Masnachu Caethweision.

Mae Jo Martin yn rhedeg yr uned Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig. Ei phrif bwrpas yw gwella cyraeddiadau plant o'r grwpiau o leiafrifoedd ethnig. Mae Jo a'i chydweithwyr yn gefn i'r plant yn eu gwersi, ac mae eu rhieni'n ymwneud gymaint â phosibl â'r gwaith. Mae asiantaethau cymorth ar gyfer bechgyn a merched ar wahân yn cynorthwyo gwaith yr uned, gan dargedu'r cymunedau Bangladeshaidd yn bennaf. Yn ôl Jo, mae hyn yn: '... rhan o batrwm o wasanaethau arbenigol sy'n diwallu anghenion penodol y gwahanol gymunedau sydd yn yr ysgol.'

Nid yw Pentrehafod yn unigryw o bell ffordd yn y ffordd y mae'n cynnig dewis o weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer y gwahanol gymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Beth sy'n fwy anarferol, efallai, yw'r ffordd y mae'n cydnabod fod y fath waith yn hanfodol i ennill ymddiriedaeth yr holl wahanol gymunedau a'r grwpiau oedran – conglfaen hanfodol yn y gwaith o greu cymdeithas gydlynol.

Cydweithio rhwng y cenedlaethau yn Rhondda Cynon Tâf

Mae'r ffaith fod poblogaeth Rhondda Cynon Tâf yn heneiddio yn arwain at fwy o alw am gymorth iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned. Gan fod pobl ifanc yn symud allan o'r cymoedd, mae'n mynd yn anodd recriwtio i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dyma un o'r prif resymau dros ddatblygu cydweithio rhwng y cenedlaethau yn Rhondda Cynon Tâf.

Un enghraifft o'r gwaith hwn yw prosiect Ddoe a Heddiw ('Past and Present') Cwmaman rhwng preswylwyr Cwrt Alun Lewis, cynllun tai lloches, a disgyblion Ysgol Gynradd Glynhafod. Roedd y prosiect yn golygu cydweithio rhwng yr ysgol a chydlynydd ei chlwstwr o ysgolion bro, Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Tâf, AALl Rhondda Cynon Tâf, Age Concern Morgannwg a Chymdeithas Tai Cynon Tâf.

Roedd y plant Blwyddyn 6 yn ymweld unwaith yr wythnos am dymor cyfan â'r preswylwyr yng Nghwrt Alun Lewis a oedd mewn perygl o deimlo unigrwydd cymdeithasol a/neu o ddioddef afiechyd meddwl. Nod y prosiect oedd creu cwlwm rhwng aelodau hŷn ac iau'r gymuned trwy weld y cenedlaethau'n dilyn patrwm pendant o ryngweithio. Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd y gwnaethant hyn. Aethon nhw ati i roi sylw i'r cwricwlwm hanes modern (1930–1970).

Daeth y bobl hŷn â ffotograffau a phethau o'u gorffennol i ysgogi proses o sgwrsio am bynciau penodol. Roedd y plant yn cofnodi'r sgyrsiau hyn yn eu llyfrau hanes. Pan oedd y sgyrsiau'n cyfeirio at ddigwyddiadau nad oedd gan y bobl hŷn gofnodion amdanynt, byddai'r plant yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am ffotograffau neu wybodaeth i'w trafod yn ystod yr ymweliad nesaf ac i'w cofnodi yn eu llyfrau.

Gwnaethant waith ar themâu fel Dydd Sant Ffolant. Bu'r plant a'r bobl hŷn yn cymharu priodasau ddoe a heddiw yng Nghwmaman, gan edrych ar y ffrogiau, y ffotograffau a'r dathliadau.

Un o'r heriau'r oedd rhaid i'r ysgol roi sylw iddynt cyn i'r prosiect ddechrau oedd cael gwared â stereoteipiau'r plant a'r bobl hŷn fel ei gilydd. Gwrandawodd y plant ar gyflwyniad ynglŷn ag iechyd meddwl a heneiddio, ac ymgynghorodd yr ysgol â'r bobl hŷn a'u gofalwyr i ofyn a oeddent yn awyddus i gymryd rhan yn y prosiect ac i drafod yr agweddau ymarferol ar ei roi ar waith. Un arall o'r heriau oedd pryderon rhieni wrth weld eu plant yn rhyngweithio â phobl hŷn ag afiechyd meddwl. Trefnwyd cyfarfod i dawelu meddyliau'r rhieni a chwalu unrhyw rhagfarnau. Defnyddiodd un o bartneriaid yr ysgol, Age Concern Morgannwg, y cyfarfod i recriwtio gwirfoddolwyr i oruchwylio'r rhyngweithio rhwng y plant a'r bobl hŷn.

Mae'r prosiect wedi esgor ar nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Mae Cymdeithas Tai Cynon Tâf, sy'n rhedeg Cwrt Alun Lewis, wedi ennill gwobr am y gwaith, sef Gwobr Gymunedol 2007 Sefydliad Siartredig Tai. Mae Cwrt Alun Lewis hefyd wedi llenwi swyddi sydd wedi bod yn wag ers amser, gan wneud y cynllun tai lloches a'r prosiect yn fwy cynaliadwy.

Mae'r bobl hŷn wedi mwynhau'r cyfleoedd i ymwneud â phobl ifanc, i hel atgofion ac i gymryd rhan mewn dewis eang o weithgareddau. Mae'r disgyblion Blwyddyn 6 wedi dod i ddeall pobl hŷn a dysgu am anghenion pobl â dementia, ac fe gawsant gyfle i ddysgu am y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r cyfleoedd i ddilyn gyrfa yn y maes. Maent hefyd wedi dysgu mwy am hanes yr ardal ac am eu cymunedau. Yn ôl un disgybl: 'Roeddwn i'n reit bryderus ar y dechrau am nad oeddwn i'n adnabod y person ac yn ansicr a oedd e am fy nghwrdd i. Nawr rydyn ni wedi dod yn ffrindiau ac rwy'n hyderus ac yn ddewr.'

Beth nesaf?

Mae rhai eraill o ysgolion Rhondda Cynon Tâf bellach yn cymryd rhan mewn prosiectau tebyg. Mae cydlynwyr y clystyrau o Ysgolion Bro'n rhan bwysig o'r gwaith gyda'r partneriaid eraill sy'n rhan o'r prosiect.

O ran yr awdurdod lleol, mae staff wedi dechrau pwyso a mesur yr effeithiau posib yn y tymor byr a'r tymor hir o weld y cenedlaethau'n cydweithio, a'r nod yw creu swydd barhaol i hybu a chydlynu'r math hwn o waith ar draws yr ardal. Mae'r gwaith yn golygu archwilio materion cyllido ac ystyried sut mae 'prif ffrydio' prosiectau i gyllidebau presennol. Trwy weld partneriaid o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol, adfywio ac addysg yn gweithio gyda'i gilydd, mae'r potensial gan y fath brosiectau i fodloni blaenoriaethau amryw byd o strategaethau sy'n amrywio o rwystro rhagfarn yn erbyn pobl hŷn yn ein cymunedau i gynyddu gweithlu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn ymdopi â newidiadau demograffig.

Y gwersi a ddysgwyd

I lwyddo ac i fod yn gynaliadwy, mae angen i bawb sy'n rhan ohonynt elwa ar brosiectau sy'n golygu cydweithio rhwng cenedlaethau.

Er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid yn ymrwymo'n gadarn i'r prosiect, rhaid i bob un fod yn gallu gweld y manteision yn glir cyn dechrau arno.

Mae'n bosib cyflawni llawer gydag ychydig iawn o arian wrth i bartneriaid gyfuno'u hadnoddau. Dylai costau'r prosiect fod yn isel os yw'n cael ei integreiddio i gynlluniau gwaith y partneriaid.

Mae'n bwysig cymryd amser i ofalu bod pawb yn deall sut y gallai'r prosiect weithio yn eu hardal hwy, a'u bod wedi gwir ymrwymo i'w lwyddiant.

continYou
Adeiladu cymunedau dysgu
Building learning communities